

Ymgynghoriad ar safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

Ebrill 2016

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heb gynnwys y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid nodi mai eiddo Cyngor Fferyllol Cymru yw'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Pan fo deunydd o drydydd parti yn cael ei ddefnyddio rhaid cael caniatâd perchennog hawlfraint hwnnw hefyd.

(h) Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2015

Cynnwys

Rhagair	4
Ynghylch y CFfC	5
Trosolwg	6
Y broses ymgynghori	7
Rhan 1: y cyd-destun	9
Rhan 2: safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol	10
Rhan 3: cefnogi ymarfer fferyllol	23
Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	25
Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi eu hel at ei gilydd	34

**Rhaid ymateb i'r ymgynghoriad erbyn
Dydd Llun 27 Mehefin 2016.**

Rhagair

Rydyn ni'n gwybod bod llawer o newidiadau yn cael eu cynnig i'r maes fferyllol. Efallai y bydd rhai gweithwyr fferyllol yn bryderus am y dyfodol, ac eraill wedi eu cyffroi am y cyfleoedd newydd a ddaw. Credwn y bydd rhai pethau yn aros yn ddigyfnewid. Yn un peth, fydd hawl cleifion a'r cyhoedd i ddisgwyl gwasanaeth effeithiol a diogel gan weithwyr fferyllol proffesiynol ddim yn newid. Yr ail beth na fydd yn newid yw'r ffaith mai agwedd ac ymddygiad gweithwyr fferyllol proffesiynol yn eu gwaith bob dydd fydd yn cyfrannu bennaf at ddiogelwch cleifion ac ansawdd y gwasanaeth y byddan nhw'n ei dderbyn. Ni fydd newid 'chwaith i'r arfer o ddarparu gofal gan weithwyr fferyllol, yn unigolion ac fel grŵp, mewn ffordd sy'n ennyn hyder a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Rydyn ni wedi datblygu safonau sy'n adlewyrchu'r pwyntiau hyn, ynghyd â'n hymrwymiad i hybu diwylliant proffesiynol a darparu gofal tosturiol sydd â'r claf yn ganolog iddo. Maen nhw'n canolbwyntio ar naw maes allweddol yr ydyn ni'n credu sy'n angenrheidiol ar gyfer darpariaeth gofal effeithiol a diogel ac i gadw ffydd a hyder mewn fferylliaeth. Wrth galon hyn oll mae'r gred y dylid trin pob person fel unigolyn.

Rydyn ni wedi drafftio'r safonau ar sail yr hyn rydyn ni wedi ei glywed yn ystod ein gwaith ymgynghori gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol a chleifion. Os ydyn ni wedi llwyddo i adlewyrchu hyn yn gywir, dylai'r safonau fod yn rhai syml a hawdd eu deall gan weithwyr fferyllol proffesiynol a chleifion. Er eu bod yn ymddangos yn syml, efallai, mae'n bwysig bod y disgwyliadau sydd gan bobl o weithwyr fferyllol proffesiynol yn cael eu cofnodi a'u cyhoeddi. O wneud hynny, bydd modd sicrhau cyfrifoldeb ac atebolrwydd unigol ac ar y cyd o fewn fferylliaeth dros gyrraedd y safonau.

Mae gan weithwyr fferyllol proffesiynol rôl hollbwysig yn y gwaith o wella iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd. Gobeithiwn glywed gan gynifer â phosibl o bobl a sefydliadau, wrth i ni ddatblygu safonau sy'n adlewyrchu'r addewid mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ei wneud i'r bobl y maen nhw'n darparu gofal ar eu cyfer.



Nigel Clarke
Cadeirydd



Duncan Rudkin
Prif Weithredwr a
Chofrestrydd

Ynghylch y CFfC

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ein gwaith yw gwarchod, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd drwy gynnal safonau a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae ein prif waith yn cynnwys:

- gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr, technegwyr fferyllol a staff cymorth fferyllol, a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a'u hyfforddiant
- cynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa
- ymchwilio i bryderon nad yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd ein safonau, a gweithredu i gyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fo angen diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig er mwyn iddynt ddarparu gwasanaeth effeithiol a diogel i gleifion
- arolygu fferyllfeydd cofrestredig i sicrhau eu bod yn cyrraedd ein safonau.

Trosolwg

Mae'r CFC yn ymgynghori tan Ddydd Llun 27 Mehefin ar safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Dyma'r safonau craidd y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol ym Mhrydain eu cyrraedd.

Ni sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig ym Mhrydain. Ein gwaith yw gwarchod, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd ac, yn benodol, yr aelodau hynny o'r cyhoedd sydd ag arnyn nhw angen neu sy'n defnyddio gwasanaethau gweithwyr fferyllol proffesiynol neu'r gwasanaethau a ddarperir mewn fferyllfeydd cofrestredig. Mae gosod safonau ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn un o'r ffyrdd yr ydyn ni'n gwneud hyn.

Mae naw safon newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol wrth iddynt gyfrannu at ddarpariaeth gofal diogel ac effeithiol. Mae'r safonau yn ystyried y swyddogaethau gwahanol sydd gan wahanol weithwyr fferyllol proffesiynol, a'r mathau gwahanol o ofal a ddarperir ganddynt. Mae'r safonau yn berthnasol ar gyfer pob gweithiwr fferyllol proffesiynol, boed yn cyfrannu'n uniongyrchol at ofal ai peidio.

Mae tair adran i'r ddogfen ymgynghori hon:

Y cyd-destun: Mae'r rhan hon yn egluro ein hagwedd tuag at osod safonau rheoleiddio; mae'n esbonio lle safonau gweithwyr fferyllol proffesiynol o fewn y fframwaith rheoleiddio ehangach; ac yn egluro'r hyn a ystyriwyd gennym wrth ddatblygu'r safonau newydd.

Y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol: Mae'r rhan hon yn cynnwys y safonau drafft ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol; mae'n egluro pam bod safonau yn bwysig; ac yn rhoi enghreifftiau o sut i weithredu'r safonau.

Cefnogi ymarfer fferyllol: Mae'r rhan hon yn egluro rôl ac amrediad y canllawiau cefnogol a'r canllawiau eraill a ddarperir gan y CFC a sefydliadau eraill ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Y broses ymgynghori

Mae'r CFFC wedi ystyried ystod o wybodaeth wrth ddatblygu'r ymgynghoriad hwn, yn enwedig yr adborth a dderbyniwyd i'n papur trafod *Proffesiynoldeb fferyllol â'r claf yn ganolog iddo*. Rydyn ni nawr am roi ein barn ar brawf er mwyn sicrhau bod ein safonau newydd yn adlewyrchu elfennau hanfodol proffesiynoldeb fferyllol sydd â'r claf yn ganolog iddo. Mae angen i ni holi barn ar ein dull cyffredinol a'r ieithwedd yr ydyn ni wedi ei defnyddio. Rhannwch eich barn gyda ni ar unrhyw un o'r cynigion a ddisgrifir yn y ddogfen hon, neu'r cwbl.

Bydd yr ymgynghoriad yn para am 12 wythnos ac yn dod i ben Ddydd Llun 27 Mehefin 2016. Yn ystod y cyfnod hwn rydyn ni'n croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Byddwn yn anfon y ddogfen hon i ystod o sefydliadau, yn cynnwys cyrff cynrychioli'r proffesiwn, cyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant a chyrrff sy'n cynrychioli cleifion.

Gobeithiwn y byddwch yn darllen yr ymgynghoriad hwn ac yn ystyried ymateb. Gallwch gael rhagor o gopiâu o'r ddogfen o'n gwefan www.pharmacyregulation.org/get-involved/consultations/active-consultations neu mae modd i chi gysylltu â ni os hoffech gael y ddogfen mewn fformat gwahanol (mewn print bras, neu iaith arall, er enghraifft).

Sut i ymateb

Mae nifer o ffyrdd y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad.

Gallwch gwblhau'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon neu fynd i'n gwefan ([link](#)) a chwblhau'r fersiwn ar-lein yno.

Os ydych yn cwblhau'r holiadur a ddarperir yma gofynnwn i chi ei anfon i:

- e-bost consultations@pharmacyregulation.org

neu

- cyfeiriad **Ymateb i'r ymgynghoriad safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, Tîm Datblygu Rheoleiddio, Cyngor Fferyllol Cyffredinol, 25 Canada Square, Llundain E14 5LQ**

Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon neu sylwadau yr hoffech eu rhoi ynghylch y broses ymgynghori ei hun, anfonwch nhw i:

- e-bost feedback@pharmacyregulation.org

neu

- cyfeiriad **Ymgynghoriad ar safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, Cyngor Fferyllol Cyffredinol, 25 Canada Square, Llundain E14 5LQ**

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn os gwelwch yn dda.

Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law. Bydd y cyngor yn derbyn y dadansoddiad yn ei gyfarfod ym mis Medi 2016, ac yn ystyried yr ymatebion wrth drafod y safonau terfynol ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ac esboniad o'r penderfyniadau a wnaed. Bydd modd i chi weld y rhain ar ein gwefan **www.pharmacyregulation.org**

Rhan 1: Y cyd-destun

Rydyn ni'n ymgynghori ar safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol (i ddisodli ein *Safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad*). Rydwn ni'n cynnig naw safon y credwn eu bod yn angenrheidiol ar gyfer darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion a'r cyhoedd. Dylai'r safonau adlewyrchu:

- yr addewid y mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ei wneud i'r bobl sy'n derbyn gofal
- yr hyn y dywed gweithwyr fferyllol proffesiynol wrthym eu bod yn ei ddisgwyl ganddyn nhw eu hunain ac eraill, a'r
- ffordd y dylid trin pobl sydd am dderbyn gofal gan weithwyr fferyllol proffesiynol, a'u galluogi i ofalu am a rheoli eu hiechyd, diogelwch a lles eu hunain

Wrth ddatblygu'r safonau, rydwn ni wedi ystyried yr hyn a glywom drwy bapur trafod *Proffesiynoldeb fferyllol â'r claf yn ganolog iddo*.

Mae'r safonau'n berthnasol ar gyfer pob fferylllydd a thechnegydd fferyllol ym mha le bynnag y mae'n gweithio. Gwyddom fod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gweithio mewn nifer o sectorau ac yn aml yn rhan o dimau amlddisgyblaethol. A hyd yn oed pan nad yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyfrannu'n uniongyrchol at ofal cleifion a'r cyhoedd, gall eu gwaith effeithio ar y gofal mae'r cyhoedd yn ei dderbyn, a ffydd y cyhoedd mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol. Bydd angen cyrraedd y safonau drwy'r amser, nid yn ystod oriau gwaith yn unig. Mae hyn oherwydd bod agwedd ac ymddygiad gweithwyr fferyllol y tu allan i'r gwaith hefyd yn gallu effeithio ar ffydd cleifion a'r cyhoedd mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Rydwn ni o'r farn mai'r penderfyniadau y mae fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn eu gwneud o ddydd i ddydd sy'n cyfrannu yn y ffordd fwyaf sylweddol ac adeiladol at ddiogelwch cleifion a safon eu gofal. Gwyddom hefyd fod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gweithio mewn gwahanol gyd-destunau - academia, meddygfeydd a gofal sylfaenol ac eilradd, er enghraifft. Hefyd, mae amgylchedd ehangach gwasanaethau gofal iechyd yn newid, a disgwyliadau pobl yn cynyddu. Mae'r safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cydnabod hyn, ac nid ydynt yn ceisio dweud mewn manylder sut dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ymddwyn ymhob sefyllfa bosibl. Pe baem yn ceisio gwneud hynny, rydwn ni o'r farn y byddai'n tansailio crebwyll a phenderfyniadau gweithwyr proffesiynol ac yn cyflwyno risg i'r gofal mae pobl yn ei dderbyn.

O ran y cyd-destun, mae'n bwysig hefyd bod y safonau yn adlewyrchu'r hyn mae cymdeithas wedi ei ddysgu o achosion pan fo gofal wedi methu - fel yn achos Ymddiriedolaeth Canol Swydd Stafford, er enghraifft, a Bro Leven yn yr Alban ac ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ym Mhorth Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr yng Nghymru.

Rhan 2: Safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol



Safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

Ynghylch y CFfC

1. Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ein gwaith yw gwarchod, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd drwy gynnal safonau a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.
2. Mae ein prif waith yn cynnwys:
 - gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr, technegwyr fferyllol a staff cymorth fferyllol, a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a'u hyfforddiant
 - cynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
 - gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa
 - ymchwilio i bryderon nad yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd ein safonau, a gweithredu i gyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fo angen diogelu cleifion a'r cyhoedd
 - gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig er mwyn iddynt ddarparu gwasanaeth effeithiol a diogel i gleifion
 - arolygu fferyllfeydd cofrestredig i sicrhau eu bod yn cyrraedd ein safonau.

Cyflwyniad

3. Mae 'gweithwyr fferyllol proffesiynol' (fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol) yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddarparu gofal a helpu pobl i wella a chynnal eu hiechyd, diogelwch a lles. Mae'r proffesiynoldeb y maen nhw'n ei arddangos yn ganolog i'r ymdrech i gynnal ffydd a hyder y cyhoedd mewn fferylliaeth.
4. Agwedd ac ymddygiad gweithwyr fferyllol proffesiynol wrth eu gwaith o ddydd i ddydd sy'n cyfrannu mwyaf at ddiogelwch cleifion ac ansawdd gofal.
5. Mae'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yn disgrifio sut y darperir gofal diogel ac effeithiol drwy gyfrwng proffesiynoldeb sydd â'r 'claf yn ganolog iddo'. Mae'r safonau yn ddatganiad o'r hyn mae pobl yn ei ddisgwyl gan weithwyr fferyllol proffesiynol, ac yn adlewyrchu hefyd yr hyn mae gweithwyr fferyllol proffesiynol wedi dweud wrthym eu bod yn disgwyl ganddyn nhw eu hunain a'u cydweithwyr.
6. Mae cydnabod y dylai pob person gael ei drin fel unigolyn wrth galon y safonau.

Y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

7. Mae'r safonau yn berthnasol ar gyfer pob gweithiwr fferyllol proffesiynol ar bob adeg. Efallai na fydd pob gweithiwr fferyllol proffesiynol yn ymwneud neu'n siarad yn uniongyrchol â chleifion yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Ond mae eu hagweddau a'u hymddygiad yn effeithio ar ddarpariaeth gofal diogel ac effeithiol ac ar y ffydd sydd gan bobl mewn fferylliaeth a gweithwyr fferyllol proffesiynol.
8. Mae naw safon y mae pob gweithiwr fferyllol proffesiynol yn atebol dros eu cyrraedd. Eglurir pob un o'r safonau, a rhoddir enghreifftiau o'r math o agweddau ac ymddygiad y dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol eu harddangos.
9. Mae'r safonau yn canolbwyntio ar ddarparu gofal effeithiol a diogel sydd â phobl yn ganolog iddo ac maen nhw'n cydnabod y dylid trin pob person fel unigolyn. Er enghraifft, efallai na fydd yr hyn sydd yn bwysig i un person wrth reoli ei gyflwr byr dymor heu hir dymor yn bwysig i berson arall. Mae gan weithwyr fferyllol proffesiynol rôl bwysig wrth alluogi pobl i wneud penderfyniadau ynghylch eu hiechyd, diogelwch a lles.
10. Mae'r ddogfen yn cyfeirio'n gyson at 'ofal sydd â phobl yn ganolog iddo' a 'pobl' a 'person'. Golyga hyn 'y person neu bobl sy'n derbyn gofal'. Fodd bynnag, er nad ydym wedi cyfeirio'n benodol at ofalwyr neu gynrychiolwyr cleifion, mae'r termau hyn hefyd yn cyfeirio atyn nhwythau, yn dibynnu ar y sefyllfa.

Y safonau a chofrestru

11. Mae'r safonau wrth galon yr hyn sydd yn creu gweithiwr fferyllol proffesiynol. Maen nhw hefyd wrth galon addysg a hyfforddiant cychwynnol, cofrestru fel gweithiwr fferyllol proffesiynol a'r ailgofrestru blynyddol. Maen nhw'n cael eu defnyddio i ddangos bod person yn dal i fod yn addas i ymarfer ac maen nhw'n declyn a ddefnyddir wrth farnu ar namau ar addasrwydd ymarfer.

Gweithredu'r safonau

12. Nid yw'r safonau a'r dogfennau cysylltiol yn ymdrin â'r dyletswyddau cyfreithiol sydd ar weithwyr fferyllol proffesiynol, gan fod yn rhaid i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol gadw at ddeddfau perthnasol.
13. Rydyn ni hefyd yn disgwyl i weithwyr fferyllol proffesiynol ystyried canllawiau perthnasol eraill wrth ymarfer. Mae nifer o sefydliadau yn cyhoeddi canllawiau perthnasol - yn ogystal â'r CFC - ac maen nhw'n cynnwys cyrff arwain proffesiynol, rheoleiddwyr eraill, y GIG a NICE.
14. Bydd adegau pan fo cyfrifoldebau cyfreithiol yn gwrthdaro â chyfrifoldebau proffesiynol. Neu efallai y daw sefyllfaoedd dyrps sy'n golygu y bydd yn rhaid cydbwysu gwahanol flaenoriaethau. Rydyn ni'n disgwyl i weithwyr fferyllol proffesiynol ystyried y safonau hyn, eu cyfrifoldebau cyfreithiol ac unrhyw ganllawiau perthnasol wrth wneud penderfyniadau. Mae'r safonau yn darparu fframwaith i'w helpu wrth ddefnyddio eu crebwyll proffesiynol eu hunain. Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol weithio mewn partneriaeth gyda phawb sydd ynghlwm wrth eu gwaith, a sicrhau mai'r person y darperir gofal iddo yw'r flaenoriaeth bennaf.
15. Mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn bersonol atebol dros gyrraedd y safonau a rhaid iddynt allu cyfiawnhau eu penderfyniadau.

Safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

Mae pob gweithiwr fferyllol proffesiynol yn cyfrannu at y gwaith o ddarparu a gwella iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd. Mae proffesiynoldeb ac ymarfer effeithiol yn ganolog i'r rôl honno.

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol:

- 1 ddarparu gofal sydd â phobl yn ganolog iddo
- 2 gweithio mewn partneriaeth ag eraill
- 3 cyfathrebu'n effeithiol
- 4 cynnal, datblygu a defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol
- 5 defnyddio crebwyll proffesiynol
- 6 ymddwyn mewn ffordd broffesiynol
- 7 parchu a chynnal preifatrwydd a chyfrinachedd pobl
- 8 codi llais pan fo ganddynt bryder neu pan fo rhywbeth yn mynd o chwith
- 9 arwain yn effeithiol

Safon 1:

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddarparu gofal sydd â phobl yn ganolog iddo

Gweithredu'r safon

Mae pob person sy'n derbyn gofal yn unigolyn sydd â'i werthoedd, ei anghenion a'i ofidiau ei hun. Darperir gwasanaeth sydd â phobl yn ganolog iddo pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn deall yr hyn sy'n bwysig i unigolion ac yn addasu'r gofal i ddiwallu eu hanghenion - gan wneud gofal dros y person unigol yn brif flaenoriaeth.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- cynnwys, cefnogi a galluogi pob person pan fo'n gwneud penderfyniadau am ei iechyd, gofal a lles
- gwrandao ar y person ac yn deall ei anghenion a'r hyn sy'n bwysig iddo neu iddi
- yn rhoi gwybodaeth berthnasol mewn ffordd y gall y person ddeall, er mwyn iddo neu iddi wneud penderfyniadau a dewisiadau doeth
- parchu a diogelu urddas y person
- cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau diwylliannol - a sicrhau bod pob person yn cael ei drin yn deg waeth beth fo'i werthoedd a chredoau
- cydnabod eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain gan beidio â'u gorfodi ar bobl eraill
- dweud wrth weithwyr iechyd proffesiynol eraill, cyflogwyr neu eraill os yw eu gwerthoedd neu gredoau yn eu hatal rhag darparu gofal, a chyfeirio pobl at ddarparwyr eraill

Safon 2:

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol weithio mewn partneriaeth ag eraill

Gweithredu'r safon

Mae iechyd, diogelwch a lles person yn dibynnu ar weithwyr fferyllol proffesiynol yn cydweithio ag eraill. Bydd hyn yn cynnwys y person ei hun a gweithwyr a thimau gofal iechyd eraill. Gallai hefyd gynnwys gofawyr a pherthnasau. Gallai gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth olygu gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill mewn lleoliadau eraill - megis swyddogion gwaith cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- nodi'r unigolion a thimau eraill sydd ynghlwm wrth ofal person ac yn cydweithio gyda nhw
- cysylltu â sefydliadau lleol a chenedlaethol, eu cynnwys yn y ddarpariaeth a gweithio gyda nhw
- derbyn cydsyniad i ddarparu gofal
- addasu eu dulliau cyfathrebu er mwyn cydweithio'n effeithiol gyda phartneriaid
- gweithredu er mwyn diogelu pobl, yn enwedig plant ac oedolion agored i niwed
- cofnodi'r gofal a ddarperir, a chadw'r cofnodion hynny
- cydweithio er mwyn sicrhau dilyniant gofal ar gyfer y person

Safon 3:

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol gyfathrebu'n effeithiol

Gweithredu'r safon

Mae cyfathrebu'n effeithiol yn hollbwysig wrth ddarparu gofal sydd â'r person yn ganolog iddo ac i weithio mewn partneriaeth ag eraill. Mae'n helpu pobl i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch eu hiechyd, diogelwch a lles. Mae cyfathrebu'n fwy na dim ond rhoi gwybodaeth i bobl. Golyga fod negeseuon yn cael eu trosglwyddo'n glir rhwng pobl. Mae iaith y corff, tôn llais a geiriau gweithwyr fferyllol proffesiynol oll yn cyfrannu at gyfathrebu effeithiol.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- addasu eu dulliau cyfathrebu er mwyn diwallu anghenion y person maen nhw'n cyfathrebu ag ef neu hi
- gofyn cwestiynau ac yn gwrando'n astud ar yr ymatebion, er mwyn deall anghenion y person a chynllunio'r gofal a ddarperir
- gwrando mewn ffordd weithredol ac ymateb i'r wybodaeth a dderbyniant
- goresgyn rhwystrau cyfathrebu
- sicrhau bod y person wedi deall yr hyn maen nhw wedi ei ddweud
- cyfathrebu'n effeithiol gydag eraill sydd ynghlwm wrth ofal y person

Safon 4:

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol gynnal, datblygu a defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol

Gweithredu'r safon

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn defnyddio'u gwybodaeth a'u sgiliau ac yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf, yn cynnwys defnyddio tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau. Rhaid i wybodaeth a sgiliau gweithwyr fferyllol proffesiynol ddatblygu gydol eu gyrfa er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn gofal iechyd, yn y boblogaeth y maen nhw'n darparu gofal ar eu cyfer ac yn eu rolau.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- adnabod y cyfyngiadau sydd ar eu gwybodaeth a'u sgiliau, ac yn gweithio o fewn y cyfyngiadau hynny, ac yn atgyfeirio pan fo angen
- defnyddio'u sgiliau a'u gwybodaeth, yn cynnwys y dystiolaeth ddiweddaraf, wrth ddarparu gofal a gwella ansawdd y gofal a ddarperir ganddynt
- ymgymryd ag ystod o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) perthnasol
- cofnodi eu weithgareddau datblygu er mwyn dangos bod eu gwybodaeth a'u sgiliau yn gyfredol
- datblygu amrywiaeth o ddulliau i fonitro a myfyrio'n gyson ar eu hymarfer, eu sgiliau a'u gwybodaeth

Safon 5:

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddefnyddio eu crebwyll proffesiynol

Gweithredu'r safon

Mae pobl yn disgwyl i weithwyr fferyllol proffesiynol ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Mae crebwyll proffesiynol yn cynnwys rheoli cyfrifoldebau cyfreithiol a phroffesiynol a gweithio gyda phobl er mwyn deall a gwneud penderfyniadau ar y cyd ynghylch yr hyn sydd orau iddyn nhw.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- defnyddio'u crebwyll wrth wneud penderfyniadau clinigol a phroffesiynol mewn partneriaeth gyda'r person sy'n derbyn gofal ac eraill
- meddu ar y wybodaeth sydd arnyn nhw ei hangen i ddarparu gofal addas
- datgan unrhyw fuddiannau personol neu broffesiynol a rheoli gwrthdaro mewn buddiannau
- ymarfer ddim ond pan font yn addas i wneud hynny
- sicrhau bod y gofal maen nhw'n ei ddarparu yn adlewyrchu anghenion y person ac nad yw targedau neu amcanion personol neu sefydliadol yn effeithio ar natur y gofal

Safon 6:

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ymddwyn mewn ffordd broffesiynol

Gweithredu'r safon

Mae pobl yn disgwyl i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ymddwyn yn broffesiynol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cynnal ffydd a hyder mewn fferylliaeth. Nid yn ystod oriau gwaith neu pan yn cwrdd â chleifion a'r cyhoedd yn unig y dylid ymddwyn fel hyn. Mae'r fraint o fod yn fferylllydd neu'n dechnegydd fferyllol yn galw am ymddygiad priodol drwy'r amser.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- foesgar ac yn ystyriol
- ymddwyn yn onest ac yn eirwir ac yn bobl y gellir ymmdiried ynddynt
- empathetig ac yn dosturiol
- trin pobl gyda pharch ac yn diogelu eu hurddas
- cynnal ffiniau personol a phroffesiynol priodol gyda'r bobl y maen nhw'n darparu gofal ar eu cyfer a chydag eraill

Safon 7:

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol barchu a chadw cyfrinachedd a phreifatrwydd y person

Gweithredu'r safon

Mae pobl yn ymddiried mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol i barchu a chadw eu cyfrinachedd a'u preifatrwydd. Mae cadw cyfrinachedd yn rhan hanfodol o'r berthynas rhwng gweithiwr fferyllol proffesiynol a'r person sy'n derbyn gofal. Gallai pobl fod yn gyndyn o ofyn am ofal pe byddent yn credu bod perygl na fyddai eu gwybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Mae egwyddorion cyfrinachedd yn dal mewn grym wedi i berson farw.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- myfyrio ar eu hamgylchedd gwaith ac yn gweithredu i gadw cyfrinachedd a phreifatrwydd y person
- peidio â thrafod gwybodaeth a allai adnabod person pan fo posibilrwydd y gallai rhywun neu rywrai glywed y trafod neu pan allai pobl nad ydyn nhw ynghlwm wrth ofal y person weld gwybodaeth amdano neu amdani
- cynnal cyfrinachedd wrth ddefnyddio gwefannau neu'r cyfryngau cymdeithasol neu'n cyfrannu at fforymau sgwrsio ar y we
- dangos arweiniad o ran cadw cyfrinachedd a pharchu preifatrwydd person er mwyn i bawb yn y tîm fferyllol sylweddoli pwysigrwydd cyfrinachedd
- gweithio mewn partneriaeth gyda'r person wrth drafod a ddylid rhannu gwybodaeth amdano neu amdani, heblaw am achosion pa na fyddai'n briodol gwneud hynny
- deall pwysigrwydd rheoli gwybodaeth yn gyfrifol ac yn ddiogel, a gweithredu felly wrth ymarfer

Safon 8:

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol godi llais pan fo ganddynt bryder neu pan fo pethau'n mynd o chwith

Gweithredu'r safon

Mae ansawdd y gofal mae pobl yn ei dderbyn yn gwella pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gallu dysgu gan adborth a phan fo pethau'n mynd o chwith a herio ymarfer ac ymddygiad gwael. Mae hyn yn cynnwys codi llais pan fo ganddynt bryderon a bod yn onest pan fo pethau'n mynd o chwith. Yr angen i fod yn onest gyda chleifion, cydweithwyr a chyflogwyr sydd wrth wraidd y safon hon.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- hybu ac annog diwylliant o ddysgu a gwelliant
- herio ymarfer ac ymddygiad gwael
- cefnogi pobl sy'n mynegi pryderon ac yn darparu adborth
- mynegi pryderon, hyd yn oed pan nad yw'n hawdd gwneud hynny
- agored ac yn onest pan fo pethau'n mynd o chwith
- ymddiheuro, yn esbonio ac yn gweithredu i unioni unrhyw gam pan fo pethau'n mynd o chwith
- ystyried adborth neu bryderon, ac yn gweithredu arnyn nhw, ac yn ystyried sut gellir atal y sefyllfa rhag codi eto

Safon 9:

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol arwain yn effeithiol

Gweithredu'r safon

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd a sylweddoli bod ganddynt rôl arwain. Ym mha le bynnag mae gweithiwr fferyllol proffesiynol yn gweithio rhaid iddo arwain y bobl y mae'n gweithio gyda nhw ac eraill.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- cymryd cyfrifoldeb dros eu gwaith ac yn arwain y bobl y maent yn gweithio gyda nhw
- asesu'r risgiau yn y gofal a ddarperir ganddynt a gwneud popeth o fewn eu gallu i gadw'r risgiau mor isel â phosibl
- dangos y gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm
- cyfrannu at hyfforddiant a datblygiad y tîm
- dirprwyo tasgau ddim ond i bobl gymwys sydd wedi eu hyfforddi'n briodol, neu sy'n cael eu hyfforddi, a sicrhau bod ganddynt drosolwg priodol dros y gwaith
- peidio â chymryd mantais ar eu sefyllfa neu ddylanwadu ar eraill i gymryd mantais ar eu sefyllfa nhwythau
- ymddwyn fel modelau rôl ar gyfer safonau gweithwyr fferyllol proffesiynol, yn enwedig o ran pobl sy'n gweithio tuag at gofrestru fel gweithwyr fferyllol proffesiynol

Rhan 3: Cefnogi ymarfer fferyllol

Bydd y gofal effeithiol a diogel y bydd pobl yn ei dderbyn hefyd yn cael ei gefnogi gan amryw declynnau a gyhoeddir gan sefydliadau. Mae cyrff arwain proffesiynol, sefydliadau masnach, rheoleiddwyr, cyflogwyr, asiantaethau llywodraeth ac eraill yn cyhoeddi canllawiau, templedi, teclynnau hyfforddi a deunyddiau eraill yn gymorth i waith gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ystyried gwybodaeth berthnasol i'w helpu wrth eu gwaith, a'u helpu i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau. Bydd y wybodaeth y byddant yn ei hystyried yn amrywio yn dibynnu ar eu hanghenion penodol neu anghenion y person y maen nhw'n darparu gofal ar ei gyfer.

Mae'r CFFC hefyd yn cynhyrchu deunyddiau atodol pan fo bwch yn y wybodaeth sydd ar gael. Gall hyn fod yn esboniad ar y safonau, neu wahanol agweddau ar y safonau, mewn mwy o fanylder. Gan ddefnyddio adborth gan y sector, grwpiau cleifion a sefydliadau fel yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, rydyn ni wedi cyhoeddi canllawiau rheoleiddio i'r materion canlynol:

- Mynegi pryderon, yn esbonio sut dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol fynegi pryderon sydd ganddynt
- Cydsyniad, yn esbonio egwyddor cydsyniad
- Cyfrinachedd, yn esbonio'r hyn y dylid ei wneud i ddiogelu cyfrinachedd gwybodaeth a ddaw i law wrth weithio'n broffesiynol
- Cynnal ffiniau rhyw clir, yn esbonio pwysigrwydd cadw ffiniau rhyw clir ac yn egluro'r cyfrifoldebau sydd gan weithwyr fferyllol proffesiynol
- Darpariaeth gwasanaethau fferyllol y mae credoau crefyddol a moesol yn effeithio arnynt, cydbwysu credoau personol a gofal cleifion a'r hyn y dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ei wneud os yw eu credoau crefyddol neu foisol yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol i gleifion a'r cyhoedd

Mae'n fwriad gennym adolygu a diweddarau ein canllawiau yn yr holl feysydd hyn.

Sut byddwn yn defnyddio eich ymatebion

Gellir cyhoeddi gwybodaeth a geir mewn ymatebion, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, a'i datgelu hefyd yn unol â threfniadau rhyddid gwybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Gwarchod Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf).

Os ydych am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol, dylech egluro pam eich bod yn ei ystyried yn gyfrinachol. Ni allwn, fodd bynnag, warantu y gellir cadw cyfrinachedd ymhob sefyllfa.

Ni fydd ymwadiad awtomatig sy'n cael ei greu gan eich system TG ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn rhwymedigaeth ar y CFfC.

Mae'n bosibl y bydd eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi'n llawn neu mewn crynodeb o'r ymatebion. Os byddan nhw'n cael eu dyfynnu, bydd ymatebion yn rhai dienw. Ni chydabyddir cyfraniadau unigol oni wneir cais yn benodol am gydnabyddiaeth.

Mae'r CFfC yn rheolwr data sydd wedi ei gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r CFfC yn defnyddio data personol i gefnogi ei waith fel corff rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau fferyllol masnachol ym Mhrydain Fawr.

Gellir rhannu data gyda thrydydd partïon yn unol â nodau, amcanion, grymoedd a chyfrifoldebau statudol y CFfC o dan Orchymyn Fferylliaeth 2010, y rheolau a wneir o dan y Gorchymyn a deddfwriaeth arall.

Gall data personol gael ei brosesu at ddibenion yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ddiweddarau'r gofrestr, gweinyddu a chynnal y broses gofrestru, prosesu cwynion, casglu ystadegau a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y CFfC i randdeiliaid.

Gellir trosglwyddo gwybodaeth i sefydliadau â diddordeb cyfreithlon yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) awdurdodau rheoleiddio a gorfodi eraill, ymddiriedolaethau'r GIG, cyflogwyr, yr Adran Iechyd, prifysgolion a sefydliadau addysgol. Noder na fydd y CFfC yn rhannu eich data ar sail fasnachol gydag unrhyw drydydd parti.

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Ymateb i'r ymgynghoriad ar safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

Os ydych am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech egluro pam eich bod o'r farn bod y wybodaeth a ddarperir gennych yn gyfrinachol. Ni allwn warantu y cedwir cyfrinachedd ymhob achos.

peidiwch â defnyddio fy enw os cyhoeddir fy ymateb

Dywedwch wrthym os oes gennych bryderon ynghylch cyhoeddi unrhyw ran o'ch ymateb:

Cwestiynau Cefndir

Hoffem ofyn am rywfaint o wybodaeth gefndir i gychwyn. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall barn grwpiau, unigolion a sefydliadau gwahanol a'n galluogi i ymateb yn well i'r farn honno.

Ydych chi'n ymateb:

fel unigolyn – Ewch i adran A

ar ran sefydliad – ewch i adran B

Adran A - Ymateb fel unigolyn

Rhowch eich:

enw:

cyfeiriad:

e-bost:

Ble rydych chi'n byw?

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- arall (nodwch)

.....

Ydych chi'n ymateb fel:

- aelod o'r cyhoedd
- gweithiwr fferyllol proffesiynol – ewch i adran A1
- hyfforddai cyn-gofrestru
- myfyriwr
- arall (rhowch fanylion)

.....

Adran A1 – Gweithwyr fferyllol proffesiynol

Ydych chi'n:

- fferylllydd
- technegydd fferyllol

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio ble rydych chi'n gweithio'n bennaf:

- fferyllfa gymunedol
- fferyllfa ysbyty
- sefydliad gofal sylfaenol
- addysg a hyfforddiant fferyllol
- diwydiant fferyllol
- arall (nodwch)

.....

Adran B: Ymateb ar ran sefydliad

Rhowch:

Eich enw:

Teitl eich swydd:

sefydliad:

cyfeiriad:

.....

.....

E-bost:

Enw cyswllt ar gyfer ymholiadau:

Rhif ffôn cyswllt:

Ydy'ch sefydliad yn:

sefydliad fferyllol

sefydliad nad yw'n un fferyllol

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio'ch sefydliad orau:

corff neu sefydliad yn cynrychioli gweithwyr proffesiynol

corff neu sefydliad yn cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd

corff neu sefydliad yn cynrychioli masnach neu ddiwydiant

fferyllfa gymunedol

fferyllfa aml gorfforaethol

fferyllfa annibynnol

sefydliad neu grŵp GIG

sefydliad ymchwil, addysg neu hyfforddi

adran neu sefydliad llywodraeth

corff rheoleiddio

arall (nodwch)

.....

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich barn ar y pwyntiau isod, er ein bod yn croesawu sylwadau ar unrhyw faterion yr hoffech eu codi ynghylch y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Y cyd-destun

Dylai'r cyflwyniad egluro'r cyd-destun ac esbonio'n glir i bwy mae'r safonau'n berthnasol, a sut y dylid eu gweithredu gan weithwyr fferyllol proffesiynol.

1. Ydy'r cyflwyniad yn eglur?

Ydy / Nac ydy

1a. Beth arall, os unrhyw beth, dylid ei ychwanegu at neu ei ddileu o'r cyflwyniad?

Mae'r safonau presennol ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol eisoes yn berthnasol i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sy'n derbyn hyfforddiant cyn-gofrestru.

Rydyn ni hefyd yn bwriadu gofyn i bob myfyriwr sy'n astudio i fod yn fferylllydd neu'n dechnegydd fferyllol gyrraedd y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, yn hytrach na gweithio i god ymddygiad ar wahân.

2. Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn?

Ydw / Nac ydw

2a Os nad ydych yn cytuno gyda'r cynnig hwn, esboniwch pam.

Y naw safon ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

3. Ydy'r safonau yn eglur?

Ydyn / Nac ydyn

3a. Beth, os unrhyw beth, sy'n aneglur?

4. Oes unrhyw safonau nad ydych yn cytuno â nhw? (Os oes, esboniwch pam)

5. Oes unrhyw safonau ar goll yn eich barn chi? (os oes, esboniwch)

Gweithredu'r safonau

Mae adran o'r enw 'gweithredu'r safon' yn cyd-fynd â phob safon. Mae'r adrannau hyn yn egluro pam bod y safon yn bwysig, ac yn rhoi enghreifftiau o'r math o ymddygiad ac agwedd y dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol eu harddangos.

6. Ydych chi o'r farn bod yr adrannau 'gweithredu'r safon' yn eich helpu i ddeall y safonau?

Ydw / Nac ydw

7. Ydych chi o'r farn bod yr adrannau 'gweithredu'r safon' yn eglur ac yn hawdd eu deall?

Ydw / Nac ydw

8. Beth sy'n aneglur? Nodwch pa safon neu safonau, ac esboniwch pam eich bod o'r farn bod problem gyda'r adran 'gweithredu'r safon'.

9. Oes unrhyw enghreifftiau eraill y byddai'n ddefnyddiol eu cynnwys yn yr adrannau 'gweithredu'r safon'?

Mae'r safonau newydd a'u hesboniadau yn egluro bod yn rhaid cydbwysio gwerthoedd a chredoau personol gweithwyr fferyllol proffesiynol gyda'r gofal maen nhw'n ei roi i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol. Nid ydym am orfodi system gred ar weithwyr fferyllol proffesiynol, ac yn yr un modd, ni ddylai gweithiwr fferyllol proffesiynol orfodi ei gredoau ei hun ar unrhyw berson sy'n derbyn gofal. Gallai credoau personol gweithiwr fferyllol proffesiynol, er enghraifft, ei rwystro rhag cyflenwi dulliau atal cenhedlu hormonaidd argyfwng. Dylai'r gweithiwr fferyllol proffesiynol ddangos tosturi a chynorthwyo'r person sy'n gofyn am ofal drwy gyfeirio'r person hwnnw at ddarparwr gofal iechyd priodol.

10. Ydych chi'n cytuno gyda'n dull?

Ydw / Nac ydw

11. Os nad ydych yn cytuno gyda'r dull hwn, esboniwch pam.

12. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

Dadansoddiad cydraddoldeb

Credwn y dylai ffocws y safonau ar ddarparu gofal sydd â phobl yn ganolog iddo effeithio'n gadarnhaol ar bobl. Nid ydym wedi nodi unrhyw agweddau a fyddai'n camwahanu yn erbyn neu'n gosod unrhyw unigolion neu grwpiau dan anfantais.

13. Oes unrhyw agweddau ar y safonau a allai effeithio'n andwyol ar gleifion, y cyhoedd, fferyllwyr, technegwyr fferyllol, neu unrhyw grwpiau eraill?

Oes / Nac oes

14. Oes gennych sylwadau ar effaith bosibl y safonau?

Cefnogi ymarfer fferyllol

Mae'n fwriad gennym adolygu a diweddarau ein canllawiau yn y meysydd canlynol:

- Mynegi pryderon, yn esbonio sut dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol fynegi pryderon sydd ganddynt
- Cydsyniad, yn esbonio egwyddor cydsyniad
- Cyfrinachedd, yn esbonio'r hyn y dylid ei wneud i ddiogelu cyfrinachedd gwybodaeth a ddaw i law wrth weithio'n broffesiynol
- Cynnal ffiniau rhyw clir, yn esbonio pwysigrwydd cadw ffiniau rhyw clir ac yn egluro'r cyfrifoldebau sydd gan weithwyr fferyllol proffesiynol
- Cydbwysio credoau personol a gofal cleifion a'r hyn y dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ei wneud os yw eu credoau crefyddol neu foesol yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol i gleifion a'r cyhoedd

15. Ydych chi'n cytuno gyda'r meysydd rydyn ni wedi eu nodi?

Ydw / Nac ydw

16. Pa gefnogaeth arall, os o gwbl, rydych chi'n credu bod ar weithwyr fferyllol proffesiynol ei hangen?

Monitro cydraddoldeb

Rydym yn ymrwymedig, yn y CFFC, i hybu cydraddoldeb. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn ein holl waith fel rheoleiddiwr iechyd. Mae cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb yn bwysig i ni.

Rydym am sicrhau bod gan bawb gyfle i ymateb i'n hymgynghoriad ar y newidiadau a gynigir i'n safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Bydd y ffurflen monitro cydraddoldeb hon yn rhoi gwybodaeth bwysig i ni i sicrhau bod hyn yn digwydd. Nid oes rhaid i chi ei chwblhau ac ni fydd eich atebion yma yn cael eu cysylltu gyda'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Beth yw eich grŵp ethnig?

Ticiwch un blwch

Gwyn

- Prydeinig
- Gwyddelig
- Arall

Du neu Brydeinig Du

- Caribiaidd
- Affricanaidd
- Arall

Cymysg

- Gwyn a du Caribiaidd
- Gwyn a du Affricanaidd
- Gwyn ac Asiaidd
- cymysg arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

- Indiaidd
- Pacistanaidd
- Bangladeshaid
- Asiaidd arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)
- Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig
- Grŵp ethnig arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Beth yw eich oedran?

Ticiwch un blwch

- dan 20 oed
- 20 – 29 oed
- 30 – 39 oed
- 40 – 49 oed
- 50 – 59 oed
- 60 + oed

Beth yw eich rhyw?

Ticiwch un blwch

- gwryw
- benyw
- arall

Beth yw eich crefydd?

Ticiwch un blwch

- Dim
- Cristion
- Bwdhydd
- Hindŵ
- Iddewig
- Mwslim
- Sikh
- Arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Ydych chi'n ystyried bod gennych anabledd?

Ticiwch un blwch

- Ydw
- Nac ydw

Atodiad A: cwestiynau'r ymgynghoriad wedi eu hel at ei gilydd

1. Ydy'r cyflwyniad yn eglur?
 - 1a. Beth arall, os unrhyw beth, y dylid ei ychwanegu at neu ei ddileu o'r cyflwyniad?
2. Rydyn ni hefyd yn bwriadu gofyn i fyfyrwyr sy'n astudio at fod yn fferyllwyr neu'n dechnegwyr fferyllol gyrraedd ein safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, yn hytrach na gweithio i god ymddygiad ar wahân. Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn?
 - 2a. Os nad ydych yn cytuno â'r cynnig, esboniwch pam.
3. Ydy'r safonau'n eglur?
 - 3a. Beth, os unrhyw beth, sy'n aneglur?
4. Oes unrhyw safonau nad ydych yn cytuno â nhw? Os oes, esboniwch pam.
5. Oes unrhyw safonau ar goll yn eich barn chi? Os oes, esboniwch.
6. Ydych chi o'r farn bod yr adrannau 'gweithredu'r safon' yn eich helpu i ddeall y safonau?
7. Ydych chi o'r farn bod yr adrannau 'gweithredu'r safon' yn eglur ac yn hawdd eu deall?
8. Beth sy'n aneglur? Nodwch pa safon neu safonau, ac esboniwch pam eich bod o'r farn bod problem gyda'r adran 'gweithredu'r safon'.
9. Oes unrhyw enghreifftiau eraill y byddai'n ddefnyddiol eu cynnwys yn yr adrannau 'gweithredu'r safonau'?
10. Mae'r safonau newydd a'u hesboniadau yn egluro bod yn rhaid cydbwysu gwerthoedd a chredoau personol gweithwyr fferyllol proffesiynol gyda'r gofal maen nhw'n ei roi i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol. Ydych chi'n cytuno gyda'n dull?
11. Os nad ydych yn cytuno gyda'r dull hwn, esboniwch pam.
12. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill?
13. Oes unrhyw agweddau ar y safonau a allai effeithio'n andwyol ar gleifion, y cyhoedd, fferyllwyr, technegwyr fferyllol, neu unrhyw grwpiau eraill?
14. Oes gennych sylwadau ar effaith bosibl y safonau?
15. Mae'n fwriad gennym adolygu a diweddarau'r meysydd canlynol o'n canllawiau. Ydych chi'n cytuno gyda'r meysydd rydyn ni wedi eu nodi?
16. Pa gefnogaeth arall, os o gwbl, rydych chi'n credu bod ar weithwyr fferyllol proffesiynol ei hangen?

**Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol**

General Pharmaceutical Council
25 Canada Square
Canary Wharf
Llundain
E14 5LQ

Ffôn: 0203 713 8000

www.pharmacyregulation.org